GENERAL TEACHING COUNCIL FOR WALES
CYNGOR ADDYSGU CYFFREDINOL CYMRU

COFNODION PEDWERYDD CYFARFOD AR HUGAIN CYNGOR ADDYSGU CYFFREDINOL CYMRU

DYDDIAD: 13EG GORFFENNAF 2006

LLEOLIAD: CANOLFAN BUSNES CONWY, CYFFORDD LLANDUDNO.

Yn Bresennol:

Mal Davies (Cadeirydd)	Sue Jenkins
Jacquie Turnbull (Dirprwy Gadeirydd)	Gareth Jones
Ron Carrotte	Valerie Merriman
Tim Cox	Suzanne Nantcurvis
Elwyn Davies	Rosemond Nelson
Sheila Drayton	Richard Parry Jones
Michael Edwards	Gareth Roberts
Ian Guy	Jacky Tonge
Anthony Hughes	Gwen Williams
Angela Jardine	Peter Williams

Ymddiheuriadau:
Frank Bonello, Jean Campion, Goronwy Jones, Nichola Jones a Jane Setchfield.

Swyddogion:

Gary Brace	Prif Weithredwr
Hayden Llewellyn	Dirprwy Brif Weithredwr (Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon)
Julia Evans	Dirprwy Brif Weithredwr (Cyllid, Personél a Gwasanaethau Corfforaethol)
Karen Evans	Rheolwr Polisi a Chynllunio
Jo Harris	Swyddog Cymorth Corfforaethol

1. Croeso a Sylwadau Agoriadol

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i bedwerydd cyfarfod ar hugain y Cyngor a chadarnhaodd y byddai'r cyfarfod yn cael ei gynnal yn ddwyieithog. Croesawyd hefyd Tom Hamilton, Cyfarwyddwr Polisi Addysgol Cyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban a oedd yn bresennol fel arsylwr, ac i'r bobl hynny a oedd yn arsylwi o'r oriel gyhoeddus, yn arbennig grŵp bach o fyfyrwyr a oedd yn mynychu yn rhan o'u hastudiaethau.

1.2 Aeth y Cadeirydd ymlaen i ddiolch i aelodau am eu hymrwymiad wrth gynorthwyo gyda'r baich gwaith uwch ar Bwyllgorau Safonau Proffesiynol a chymeradwyodd y cynigion o gymorth gyda Phwyllgorau Addasrwydd yn ystod cyfnod y gwyliau.

1.3 Yna lleisiodd ei werthfawrogiad i swyddogion am y gwaith sylweddol a wnaed i sicrhau bod y Cyngor yn hollol barod i ymgymryd â'r swyddogaeth newydd o gynnal gwiriadau addasrwydd ar athrawon newydd i'r proffesiwn. Yn ogystal, canmolodd ansawdd y ddau ddiwrnod Hyfforddiant Gloywi Disgyblu a'r deunydd hyfforddi a ddarparwyd i aelodau a chyn-aelodau yn ystod y misoedd diwethaf.

2. Datganiadau o Ddiddordeb

2.1 Mynegodd Gareth Roberts ddiddordeb yn eitem Agenda 13: 'Ymateb drafft CyngACC i Adroddiad Furlong ar Ddarpariaeth Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru' oherwydd ei gysylltiad â sefydliad AHCA.

3. Gohebiaeth y Cadeirydd

3.1 Dechreuodd y Cadeirydd drwy hysbysu aelodau am gyfarfod a fynychodd gyda Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, ar 3ydd Gorffennaf 2006 lle roedd y Dirprwy Gadeirydd a'r Prif Weithredwr yn bresennol hefyd. Adroddodd am drafodaeth gadarnhaol iawn lle amlinellodd ystod gweithgareddau'r Cyngor, gan arwain at ffocws arbennig ar feysydd DPP ac addasrwydd i gofrestru. Cafwyd cydnabyddiaeth gan y Gweinidog am y pwysau ar y sefydliad yn sgil gweithredu'r ail elfen honno mor gyflym. Cafwyd trafodaeth am ffurf cyfarfod blynyddol y Gweinidog gydag aelodau'r Cyngor a mynegodd ei bod yn agored i gael trafodaeth fwy agored gydag aelodau wedi iddi gyflwyno'i geiriau agoriadol. Gwahoddwyd sylwadau'r aelodau, ar ôl y cyfarfod, ar y pwynt hwn.

3.2 Yna tynnodd y Cadeirydd sylw'r aelodau at un eitem o ohebiaeth, sef llythyr gan Jane Davidson, dyddiedig 21ain Mai 2006 yn ymateb i Gynlluniau Corfforaethol a Gweithredol drafft y Cyngor, ac aeth ymlaen i gynghori bod y Gweinidog wedi sôn yn y cyfarfod y byddai costau cyllido Sefydlu a DPP yn cael eu cadarnhau. Yn ogystal, yn unol â'r cais, byddai mater y berthynas rhwng y Fframwaith â thâl yn cael ei gynnwys yn nogfen gyngor Haen 2 i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

3.3 Yr ail eitem o ohebiaeth oedd llythyr pellach ac adroddiad atodedig gan Jane Davidson, dyddiedig 23ain Mehefin 2006, a nododd fod dros £59 miliwn (ac eithrio diwrnodau HMS) wedi'u darparu gan y Cynulliad i athrawon ar gyfer eu Datblygiad Proffesiynol Parhaus. Roedd y wybodaeth hon mewn ymateb i gyngor Haen 1 gan y Cyngor. Fodd bynnag, nid oedd swm cyfraniad ariannol AALlau yn hysbys. Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai angen i swyddogion bwyso ar y ddau Awdurdod Addysg Lleol ar hugain i ganfod lefel eu cyfraniad ariannol a oedd, er yn amrywiol, yn rhan hanfodol o'r trefniadau cyllido cymhleth ar gyfer DPP.

3.4 Cafwyd trafodaeth ar y pwynt hwn a nododd rhai aelodau ei bod yn anodd i athrawon gael digon o gyllid ar gyfer eu DPP; nodwyd siom bod swm y cyllid sydd ar gael o'r Gronfa Ysgolion Gwell wedi'i leihau; roedd angen mynd i'r afael â mater lefel y cyllid sydd ar gael i benaethiaid drwy CPCP a RhSBP a nodwyd bod loteri cod post yn bodoli am nad oedd y cyllid sydd ar gael yn cyrraedd athrawon ar draws y wlad ar lefelau cyfartal. Ar y pwynt olaf hwn hysbyswyd yr aelodau gan y Cadeirydd fod y Gweinidog ei hun wedi tynnu sylw at y mater hwn. Roedd adolygiad diweddar y Cynulliad Cenedlaethol o drefniadau cyllido ysgolion hefyd yn ymdrin â'r pwynt hwn.

3.5 Yna tynnwyd sylw'r aelodau at y drydedd eitem o ohebiaeth: *Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Cyfansoddiad) (Diwygiad) 2007 - ymgynghoriad ar gyfansoddiad y Cyngor.* Er bod y Cyngor wedi cytuno ar ei safbwynt ar yr ymgynghoriad yn ei gyfarfod diwethaf, roedd y ddogfen a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan y Cynulliad yn cynnwys mater arall nad oedd wedi'i drafod gan y Cyngor, sef "dylid ystyried darparu cynrychiolaeth ar y Cyngor ar sail natur y system addysg yng

Nghymru". Croesawyd sylwadau'r aelodau ar y mater hwn ac roedd y rhain yn cynnwys cymhlethdod dethol corff Cymraeg a fyddai'n rhychwantu'r sectorau cynradd, uwchradd ac anghenion arbennig; pwysigrwydd cadw'r Gymraeg yn yr amlwg; yr opsiwn bod Bwrdd yr Iaith Gymraeg ei hun yn cael ei ychwanegu at restr y cyrff enwebu ac yn olaf, nodwyd ei bod yn bosibl y gellid cynrychioli'r iaith drwy'r rhestr bresennol o sefydliadau enwebu, yn dibynnu ar y sawl a'i gefndir.

3.6 Caeodd y Cadeirydd y drafodaeth drwy ddweud y dylai ymateb y Cyngor ar y mater hwn fynegi bod aelodau'n derbyn y cynnig o ran egwyddor, ond y dylid amlygu'r materion a godwyd. Roedd aelodau'n fodlon ar hyn. **Gweithredu: Swyddogion CyngACC**

3.7 Codwyd pwynt olaf gan aelodau a amlygai rai camgymeriadau yn Atodiad A y ddogfen A ynghylch swyddi Peter Williams a Ron Carrotte. Cytunodd y swyddogion i gyfeirio at y camgymeriadau yn yr ymateb. **Gweithredu: Swyddogion CyngACC**

4. Cofnodion drafft y Cyfarfod a gynhaliwyd 4ydd Mai 2006

4.1 Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod yn gofnod cywir.

Materion yn codi:

4.2 Cofnod 13.3: Addasrwydd i gofrestru: Nododd un aelod i'r Cyngor fynegi barn yn y cyfarfod ar 4ydd Mai 2006 y dylid codi mater rhestr y bobl a oedd wedi'u heithrio rhag y gofyniad i gofrestru gyda Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, ac felly peidio â bod yn destun gwiriad gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol, fel mater o bryder gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru. Gofynnwyd i swyddogion a oedd cyfle o'r fath wedi codi. Ymatebodd Gary Brace, y Prif Weithredwr, drwy ddweud nad oedd y mater wedi'i godi hyd yn hyn ond ei fod yn dal ar yr agenda tra'n cadw ffocws ar y swyddogaeth newydd ynghylch addasrwydd.

5. Derbyn hysbysiad am unrhyw faterion y dymunai aelodau eu codi mewn perthynas ag Eitemau a nodir ar yr Agenda 'Er Gwybodaeth' (21 to 24)

5.1 Hysbysodd un aelod am ddau bwynt a oedd yn codi cwestiynau ar eitem agenda 21: *Adroddiadau gan Gynrychiolwyr y Cyngor ar grwpiau allanol* ac eitem 22: *Adolygiad Chwarterol, 1af Ebrill 2006 tan 30ain Mehefin 2006.*

6. Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Gweithredol ar 7fed Mehefin 2006

6.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr y cofnodion hyn, gan hysbysu aelodau y byddai'r agenda gyffredinol yn ymdrin â'r holl faterion i'w trafod heblaw un.

6.2 Cofnod 2.2: Cynllun Iaith Gymraeg Statudol: Hysbysodd aelodau fod cynllun y Cyngor wedi'i gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar 7fed Mai 2006. Byddai'r adroddiad cyntaf ar ei weithrediad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gweithredol ar 4ydd Rhagfyr 2006 ac wedi hynny i Fwrdd yr Iaith yn ôl y gofyn.

6.3 Nodwyd y cofnodion heb eu cadarnhau.

6.4 Ni chodwyd unrhyw faterion eraill.

7. Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Polisi ar 7fed Mehefin 2006.

7.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr y cofnodion hyn ac esboniodd y byddai'r holl faterion yn cael eu trafod yn agenda'r cyfarfod.

7.2 Nodwyd y cofnodion heb eu cadarnhau.

7.3 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

8. Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Cofrestru ar 13eg Mehefin 2006

8.1 Cyflwynodd Gareth Roberts y cofnodion hyn yn fras, gan hysbysu aelodau y byddai'r holl faterion yn cael eu trafod yn agenda'r cyfarfod.

8.2 Nodwyd y cofnodion heb eu cadarnhau.

8.3 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

9. Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Archwilio ar 3ydd Mawrth 2006.

9.1 Cyflwynodd Mike Edwards y cofnodion hyn i'r Cyngor. Tynnodd sylw'r aelodau at rai pwyntiau penodol, sef: swydd wag bresennol Swyddog Cyllid a oedd dan ofal aelod staff dros dro; datblygu *Rhestr Wirio Hunanwerthuso* i'r Cyngor a'i Bwyllgor Sefydlog ei defnyddio; canlyniad boddhaol yr ymarfer Archwilio Allanol; yr adroddiad cadarnhaol iawn a gafwyd yn dilyn Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol y Cyngor a diweddariad ar yr hyfforddiant Chwythu'r Chwiban a ddarparwyd i aelodau'r Pwyllgor Archwilio.

9.2 Aeth ymlaen i nodi bod aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn parhau i aros am siart llif arfaethedig a fyddai'n amlinellu'r broses i'w gweithredu wrth ymdrin â sefyllfa chwythu'r chwiban o'r fath. Cadarnhaodd swyddogion y byddai'r mater yn cael ei godi gyda Swyddfa Archwilio Cymru.

9.3 Nodwyd y cofnodion heb eu cadarnhau gan aelodau ac nid oedd unrhyw faterion yn codi.

10. Addasrwydd i gofrestru – adroddiad cynnydd (CyngACC 34/06)

10.1 Cyflwynwyd y papur hwn gan Hayden Llewellyn, Dirprwy Brif Weithredwr, Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon. Darparwyd adroddiad ychwanegol i aelodau gyda manylion y Cyflwyniadau Datgeliadau manwl i'r Swyddfa Cofnodion Troseddol a nifer yr ymatebion a ddarparwyd gan y Cyngor ar 7fed Gorffennaf 2006.

10.2 Yn dilyn bwriad penodol y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ym mis Ionawr 2006 i rymuso Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru i bennu addasrwydd unigolyn i gofrestru yn y proffesiwn addysgu, daeth y Rheoliadau Addasrwydd i rym statudol ar 31ain Mai 2006.

10.3 Hysbyswyd aelodau bod swyddogion y Cyngor wedi derbyn 1300 o ffurflenni cais am Ddatgeliad Manwl yn unol â'r broses newydd a chydnabu rôl sefydliadau AHCA a oedd wedi hwyluso'r dasg o gasglu ceisiadau athrawon newydd gymhwyso. Er iddo

gydnabod ei bod yn gynnar y broses, hysbysodd Hayden Llewellyn fod yr amser gweithdroi mor belled yn gymharol bositif ond nid yn unol â'r cytundeb lefel gwasanaeth o ymateb i 90% mewn pedair wythnos fel yr amlinellodd y Swyddfa Cofnodion Troseddol. Aeth ymlaen i gyfeirio at yr adroddiad a gyflwynwyd i aelodau a adlewyrchai'r cynnydd a wnaed mor belled.

10.4 Croesawodd y Cadeirydd yr adroddiad a'r wybodaeth a ddarparwyd. Gwahoddwyd aelodau i godi cwestiynau ac ymysg y rhain holwyd a oedd swyddogion o'r farn bod y broses ar y trywydd cywir ac a oedd digon o adnoddau staff i ymdrin â'r baich gwaith uwch. Darparodd Hayden Llewellyn sicrwydd i'r aelodau ar y ddau bwynt fel ei gilydd.

10.5 Yna aeth ymlaen i dynnu sylw aelodau at ddau fater yr oedd angen eu trafod a phenderfynu arnynt. Yn gyntaf, roedd y Pwyllgor Cofrestru yn cynnig y dylid ymestyn rhestr bresennol y materion y gallai swyddogion ymdrin â nhw heb eu cyfeirio at Bwyllgor Ymchwilio. Amlinellwyd manylion y cynnig hwn ym mharagraffau 22 i 25 o'r papur. Roedd aelodau'n fodlon ar y cynnig. Yn ail, gofynnwyd am arweiniad ynghylch nifer ac amlder ailgeisiadau i gofrestru gan unigolion, fel yr amlinellwyd ym mharagraffau 26 i 29. Argymhelliad y Pwyllgor Cofrestru oedd y dylai swyddogion ddrafftio'r arweiniad hwn gyda chyngor cyfreithiol fel y gellid ei ymgorffori yn y llythyr safonol i'w ddefnyddio i gynghori ymgeiswyr y penderfynwyd nad oeddent yn addas i gofrestru.

10.6 Cododd un aelod gwestiwn ar fater ar wahân yn y papur ynghylch pam nad oedd y Pwyllgor Cofrestru wedi mabwysiadu'r cyngor gan ymgynghorydd cyfreithiol y Cyngor ar gyfer proses un cam mewn achosion addasrwydd. Ymatebodd Hayden Llewellyn drwy ddweud bod penderfyniad wedi'i wneud, ar ôl trafod, i gadw'r broses yn unol â'r broses ar gyfer y gweithdrefnau safonau proffesiynol eraill sydd eisoes yn eu lle gan y Cyngor. Wedi dweud hyn, roedd ymgynghoriad ehangach â'r proffesiwn ar waith bellach ar y broses ac roedd swyddogion yn disgwyl canlyniad hynny. Nododd un aelod ei bryderon y byddai costau ychwanegol yn gysylltiedig â phroses hwy. Esboniodd un o aelodau'r Pwyllgor Cofrestru fod eu trafodaeth wedi cynnwys y pryder hwn hefyd, ond, gyda'r nod o ddatblygu cydbwysedd rhwng tegwch a chyflymder, bod y Pwyllgor wedi penderfynu rhoi'r pwys ar degwch gyda golwg ar adolygu'r gweithdrefnau ar ôl eu gweithredu am gyfnod rhesymol. Cytunodd aelodau am fod addasrwydd yn swyddogaeth newydd i'r Cyngor, a oedd yn sensitif ac yn mynnu triniaeth 'gywir', eu bod yn cyd-fynd ag ymagwedd arfaethedig y Pwyllgor Cofrestru am y tro.

11. Cyllido Sefydlu a DPC – adroddiad cynnydd (CyngACC 35/06)

11.1 Darparodd y papur hwn ddiweddariad i aelodau ar gynnydd y Cyngor wrth weithredu'r trefniadau newydd ar gyfer cyllido Sefydlu a DPC o 1af Medi 2006; cafwyd adroddiad a roddodd grynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y trefniadau newydd ar gyfer cyllido'r rhaglenni a chopi o'r ddogfen weithdrefnau a gafodd ei chyhoeddi a'i dosbarthu'n ddiweddar i ysgolion.

11.2 Wrth gyflwyno'r papur, amlygodd Hayden Llewellyn lefelau uchel cefnogaeth y proffesiwn ar gyfer y rhaglen yn yr ymgynghoriad ac adroddodd fod nifer sylweddol o ymholiadau ffôn wedi dod i mewn ar ôl cyhoeddi'r ddogfen weithdrefnau ar 7fed Gorffennaf 2006, a bod nifer o ffurflenni cais wedi'u cyflwyno ar gyfer y cyllid ei hun yn sgil hynny.

11.3 Gwahoddwyd aelodau i dderbyn yr adroddiad er gwybodaeth ac i godi unrhyw gwestiynau neu faterion. Am na ofynnwyd unrhyw gwestiynau, diolchodd y

Cadeirydd i'r swyddogion am eu gwaith a nododd mai dyma oedd y cam cychwynnol at swyddogaeth newydd i'r Cyngor ac y byddai datblygiadau pellach yn dilyn o bosibl.

12. Fframwaith Datblygiad Proffesiynol – adroddiad cynnydd a chyngor drafft (Haen 2) (CyngACC 36/06)

12.1 Yn dilyn ymgynghoriad diweddar y Cyngor ar haen 2 Fframwaith Datblygiad Proffesiynol i athrawon, darparodd y papur hwn ddrafft diwygiedig o'r ddogfen gyngor arfaethedig i'r Cynulliad, diweddariad ar ddatblygiad y safonau ar gyfer carreg filltir Athro Siartredig ac argymhelliad y dylid cyhoeddi gwahoddiadau i'r Tasglu ar gyfer haenau 3 a 4 i'r un sefydliadau a oedd yn gysylltiedig yn flaenorol.

12.2 Cyflwynodd y Prif Weithredwr y papur hwn ac atgoffodd aelodau fod y cyngor drafft ac adroddiad yr ymgynghoriad wedi'u cyhoeddi cyn papurau'r Cyngor er mwyn iddynt ddarllen drwyddynt. Darparwyd manylion canlyniadau'r ymgynghoriad yn y papur esboniadol, a hynny'n cynnwys cydnabod y materion a'r heriau, ond crynhodd y bu cryn gefnogaeth i gynigion yr Athro Siartredig.

12.3 Hysbyswyd aelodau hefyd bod y cynnig i ail-ddynodi cofrestriad amodol a chofrestriad llawn wedi'i drafod yn ystod y cyfarfod â Jane Davidson, a'r arwydd a gafwyd oedd y gallai Mesur Llywodraeth Cymru hwyluso newid o'r fath drwy ddeddfwriaeth sylfaenol. Ychwanegodd y Prif Weithredwr yn ddiweddarach yn y drafodaeth y dylid gohirio'r cynnig yn yr ymgynghoriad i brif-lifo Athro Siartredig yn 2008 am flwyddyn tan 2009 er mwyn caniatáu digon o amser gwerthuso ar ôl cynnal cynlluniau peilot.

12.4 Aeth yr aelodau ymlaen i ofyn a ellid newid Pennod 2 *Datblygiad proffesiynol, cydnabyddiaeth ac achrediad: Materion a heriau* i gydnabod y cyllid sydd ar gael gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer DPP athrawon. Nododd aelodau y byddai'n ddefnyddiol hefyd petai'r 22 AALl yn gwneud datganiad tebyg.

12.5 Cafwyd sylwadau cyffredinol am y ddogfen gan aelodau, sef bod aelodau'n fodlon gweld y cyfeiriad at anghenion DPP athrawon cyflenwi; y gallai'r adolygiad o'r holl safonau addysgu sydd ar fin cael ei gynnal gynnwys safonau Athro Siartredig; materion ynghylch lle byddai'r garreg filltir yn 'eistedd' mewn perthynas ag uwch arweinwyr a phenaethiaid ac y byddai angen ymgynghori ymhellach o bosibl i allu adnewyddu'r garreg filltir yn y dyfodol.

12.6 Mynegodd aelod bryder am y dybiaeth y byddai'r Cyngor yn llyncu'r costau'n awtomatig o weinyddu'r rhaglen Athro Siartredig a fyddai'n dod i'w ran drwy'r llwybr portffolio, a ragdybir i fod yn £120,000. Ymatebodd y Prif Weithredwr drwy ddweud bod y Cyngor, ar ôl cael ei wahodd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i lywio'r Tasglu i ddatblygu'r safonau, wedi cynnig gweinyddu'r swyddogaeth yn unol â'r hyn sy'n gyson mewn proffesiynau eraill. Byddai'r Cyngor, ar ran y proffesiwn, yn 'berchen' ar y garreg filltir hon ac roedd yn ymddangos yn briodol y byddai gweinyddiaeth y llwybr achredu yn cael ei thrafod yn unol â hynny.

12.7 Yn ogystal, holodd yr un aelod ynghylch nifer bach yr athrawon y byddai'r rhaglen yn eu 'cyrraedd'. Nododd y Cadeirydd mai'r ffigurau disgwyliedig bob blwyddyn y modelwyd y costau arnynt oedd 150 drwy'r llwybr 'portffolio' a 250 drwy'r llwybr 'addysgu'. Seiliwyd hyn ar nifer yr athrawon yng Nghymru a phrofiad Cyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban.

12.8 Ar y pwynt hwn, cadarnhaodd aelodau eu bod yn fodlon ar y ddogfen gyngor ddrafft ar yr amod bod y newidiadau a awgrymwyd yn cael eu hymgorffori.

12.9 Yna cafwyd trafodaeth ynghylch y cynnydd a wnaed gan grŵp datblygu safonau'r Athro Siartredig a nodwyd yng nghofnodion y tri chyfarfod a gynhaliwyd mor belled. Roedd pedwerydd cyfarfod wedi'i gynnal ers rhyddhau papurau'r Cyngor ond nid oedd y cofnodion ar gael i aelodau eu darllen. Roedd aelodau o'r farn bod cynnydd sylweddol yn cael ei wneud gan y grŵp a chydnabuwyd anawsterau eu gorchwyl.

12.10 Cynigiwyd sylwadau ynghylch gogwydd y safonau; sensitifrwydd a phwysigrwydd y geiriad; defnydd o'r term *mentor* a'r angen i gynnwys berfau cadarnhaol/gweithredol fel 'hyrwyddo'. Teimlwyd bod *Datganiad Gwerthoedd ac Arfer Proffesiynol* y Cyngor yn ofyniad ar bob athro/athrawes ond y byddai disgwyl i Athro Siartredig anelu'n uwch fyth.

12.11 Awgrymodd un aelod hefyd y dylid ceisio cytundeb Llywodraeth Cynulliad Cymru i dalu costau athrawon cyflenwi a threuliau a ddeuai i ran athrawon ac ysgolion.

12.12 Roedd aelodau'n fodlon y byddai datblygiad safonau'r Athro Siartredig yn cael eu hadrodd i gyfarfod nesaf y Cyngor ym mis Hydref 2006.

13. Ymateb drafft CyngACC i Adroddiad Furlong ar Ddarpariaeth Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru (CyngACC 37/06)

13.1 Amlinellodd y papur hwn ymateb Jane Davidson i Adroddiad Furlong. Gwahoddwyd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru i ymateb yn ffurfiol i'r Adolygiad ar Ddarpariaeth HCA yng Nghymru yn ogystal ag i *Gynllun Newid HCA* Llywodraeth Cynulliad Cymru gan roi cyfle allweddol i'r Cyngor ddylanwadu ar ddatblygiad strategol AHCA yng Nghymru.

13.2 Cyflwynwyd y papur gan Karen Evans, Rheolwr Polisi a Chynllunio, a chroesawodd gyfraniadau aelodau ar ddatblygu'r papur safbwynt a oedd wedi'i drosglwyddo i'r Pwyllgor Polisi. Roedd y drafft cyntaf wedi'i lunio ar ôl trafodaeth y Pwyllgor ar 7fed Mehefin 2006 a chydnabuwyd cyfraniad Gareth Roberts yn dilyn y gwahoddiad estynedig i bob aelod a ddymunai fynychu'r cyfarfod penodol hwn o'r Pwyllgor Polisi.

13.3 Ategodd rhai aelodau rai paragraffau penodol. Roedd y pedwerydd paragraff yn amlinellu'r cynnig arfaethedig i leihau niferoedd AHCA. Roedd paragraff pump yn nodi'r ffaith bod system addysg Cymru yn dod yn fwyfwy gwahanol i system Lloegr a bod angen cydbwysedd i deilwra rhaglenni yn unol ag anghenion Cymru tra'n sicrhau na fyddai athro/athrawes a oedd wedi cwblhau cwrs hyfforddiant yng Nghymru byth yn wynebu rhwystr rhag sicrhau cyflogaeth y tu hwnt i Gymru. Roedd paragraff naw yn cefnogi'r cyfle i weld y sector AHCA yng Nghymru yn cael hwb o egni newydd. Yn ogystal, cyfeiriodd un aelod at baragraff deunaw a chytuno ei bod yn bwysig i'r Cyngor wthio mater safonau arweinyddiaeth uwch i'w drafod yn agored yn gyhoeddus.

13.4 Byddai cyfeirio at y safonau SAC diwygiedig a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn golygu y byddai'n rhaid newid paragraff deunaw.

13.5 Roedd aelodau'n fodlon ar ogwydd a datblygiad cyffredinol y drafft cyntaf. Byddai'r ymateb ffurfiol yn cael ei ddatblygu ymhellach gan swyddogion a'i drosglwyddo'n ôl i'r Pwyllgor Polisi erbyn 21ain Medi gyda golwg ar gael cytundeb terfynol gan y Cyngor ar 17eg Hydref 2006.

14. Newidiadau i'r Gweithdrefnau a'r Rheolau Disgyblu (CyngACC 38/06)

14.1 Ers i'r Cyngor dderbyn ei gyfrifoldebau ym mis Mehefin 2001, diwygiwyd ei Weithdrefnau a'i Reolau Disgyblu unwaith ym mis Mehefin 2003, ac yn dilyn

adolygiad a wnaed gan y Pwyllgor Cofrestru ar 13eg Mehefin 2006 a mewnbwn dilynol gan Ymgynghorydd Cyfreithiol y Cyngor, roedd nifer o awgrymiadau yn cael eu hystyried ar hyn o bryd.

14.2 Cyflwynwyd y papur hwn gan Hayden Llewellyn ac esboniodd nad oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cyngor ar yr adeg hon. Gwahoddodd aelodau i nodi awgrymiadau pellach yr ymgynghorwyr cyfreithiol er gwybodaeth ac i ddirprwyo'r cyfrifoldeb i ystyried y cynigion hyn ymhellach i'r Pwyllgor Cofrestru a oedd i fod i gyfarfod ar 26ain Medi 2006. Croesawyd sylwadau a chwestiynau aelodau.

14.3 Cafwyd trafodaeth ynghylch y posibilrwydd bod tyst yn dymuno darparu tystiolaeth yn y Gymraeg a gofynnwyd i swyddogion a oedd cais fel hyn wedi codi ar unrhyw adeg. Ymatebodd Hayden Llewellyn drwy ddweud nad oedd y sefyllfa hon wedi codi mor belled a sicrhaodd aelodau fod ymholiadau o'r fath yn cael eu gwneud yn rhan o'r trefniadau cyn y gwrandawiad. Mewn achos o'r fath, byddai cyngor cyfreithiol yn cael ei geisio a'i ddarparu i'r Pwyllgor. Yn ogystal, cytunodd i drafod y mater ymhellach gydag ymgynghorydd cyfreithiol y Cyngor fel cam i achub y blaen.

14.4 Roedd aelodau o'r farn bod hawl tyst yn ogystal â'r athro/athrawes i allu siarad Cymraeg mewn Pwyllgor Safonau Proffesiynol yn hanfodol ac y dylid ymgorffori hyn yn y ddogfen Gweithdrefnau a Rheoli Disgyblu. Cydnabu aelod o'r Pwyllgor Cofrestru y gellid ymdrin â hyn yn eu cyfarfod nesaf.

14.5 Codwyd un ymholiad pellach, sef a fyddai'r ddogfen ddiwygiedig yn destun ymgynghori â'r proffesiwn. Esboniodd Hayden Llewellyn nad oedd bwriad ymgynghori oherwydd y mathau o newidiadau a gâi eu gwneud.

15. Monitro Cynnydd y Cynllun Gweithredu ar gyfer Recriwtio a Chadw Athrawon yng Nghymru (CyngACC 22/06)

15.1 Ym mis Mawrth 2005, gwahoddwyd y Cyngor yn ffurfiol gan Bwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes Cynulliad Cenedlaethol Cymru i fonitro ac adrodd ar gynnydd a wnaed yn erbyn cyhoeddiad CyngACC, *Cynllun Gweithredu ar gyfer Recriwtio a Chadw Athrawon yng Nghymru..*

15.2 Hysbyswyd aelodau gan Karen Evans, Rheolwr Polisi a Chynllunio, bod y Pwyllgor Polisi wedi llunio adroddiad drafft cychwynnol yn eu cyfarfod ar 7fed Mehefin 2006. Croesawyd sylwadau yn ystod y cyfarfod a hefyd drwy'r post wedi hynny i swyddogion, gyda golwg ar roi'r adroddiad yn ei ffurf derfynol erbyn mis Medi 2006 yn barod i'w gyflwyno i'r Pwyllgor ADGOS.

15.3 Gofynnodd y Dirprwy Gadeirydd, a oedd wedi cynrychioli'r Cyngor yn y Pwyllgor ADGOS ar 26ain Ionawr 2006, a ellid adlewyrchu ar dudalen dau y ffaith bod cais y Cyngor am gyllid ar gyfer rhai agweddau ar fonitro er mwyn cynhyrchu'r adroddiad wedi'i wrthod.

15.4 Holodd aelod arall a allai'r maes hwn fod yn declyn posibl i'r Cyngor godi mater problemau recriwtio penaethiaid. Ychwanegodd y Cadeirydd fod tybiaeth amlwg nad oedd problemau recriwtio yn y maes hwn oherwydd bod digonedd o ymgeiswyr ar gyfer rhaglen CPCP. Soniwyd hefyd bod rhai anghywirdebau gyda chyfrifiad Llywodraeth Cynulliad Cymru a oedd yn dyfynnu rhywfaint o wybodaeth y Cyngor yn anghywir. Cytunwyd y byddai swyddogion yn codi'r ddau fater hyn gyda swyddogion PLASC yn y Cynulliad Cenedlaethol.

15.5 Ar y pwynt hwn, cyfeiriwyd at erthygl y gwahoddwyd Gary Brace i'w llunio am recriwtio penaethiaid a ymddangosodd yn y Western Mail yn ddiweddar. Ymatebodd y Prif Weithredwr drwy ddweud bod rhannau pwysig o'r erthygl yr oedd wedi'i

pharatoi wedi'u golygu a newidiodd y cyd-destun a'r safbwynt yr oedd yn bwriadu ei gyfleu. Wedi egluro'r cynnwys a ddylai fod wedi ei gyhoeddi gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru, mae'r Cyngor bellach yn codi mater yr anawsterau a achoswyd oherwydd y gamgynrychiolaeth drwy ei gynrychiolydd cyfryngol, Merlin.

15.6 Nododd y Cadeirydd fod aelodau'n fodlon ar y drafft mor belled a throsglwyddwyd y gwaith terfynol i'r Pwyllgor Polisi ym mis Medi 2006.

16. Adeiladau, Cronfeydd wrth Gefn a'r Ffi Gofrestru Ddangosol, 2007-09 (CyngACC 40/06)

16.1 Cyflwynwyd y papur hwn gan Julia Evans, Dirprwy Brif Weithredwr, Cyllid, Personél a Gwasanaethau Corfforaethol, a gwahoddodd aelodau i dderbyn argymhelliad y Pwyllgor Gweithredol yn gyntaf, i sefydlu cronfa gyfalaf wrth gefn a'i chynyddu drwy gronni gwargedau i'r gyllideb nas cynlluniwyd, ac yn ail, i gytuno ar y ffioedd cofrestru dangosol ar gyfer 2007-08 a 2008-09 ar £36.

16.2 Roedd aelodau'n ymwybodol y cytunwyd yng nghyfarfod blaenorol y Cyngor ar 4ydd Mai 2006 i drosglwyddo'r ystyriaethau rhyng-gysylltiedig canlynol i'r Pwyllgor Gweithredol: sefydlu cronfa y gellid ei defnyddio o bosibl i brynu eiddo, ac ystyried y manteision a fyddai ynghlwm wrth brynu adeiladau'r Cyngor ei hun yn erbyn parhau i brydlesu; y pwysau uwch ar le gweithio staff yn y swyddfa bresennol oherwydd y cynnydd diweddar a'r cynnydd disgwyliedig i niferoedd staff; y trafodaethau presennol ar y prydlesi sy'n bodoli gyda Thŷ Southgate a'r effaith yn sgil hynny ar y ffi Gofrestru Ddangosol o ganlyniad i'r holl elfennau uchod.

16.3 Amlinellodd Julia Evans argymhelliad y Pwyllgor Gweithredol fod angen cronfa gyfalaf o £350,000 i dalu'r costau prynu cychwynnol, yr arolygon a'r blaendal ar gyfer adeilad o'r fath. Byddai hyn yn datblygu o wargedau annisgwyl a chynllunio incwm yn bwyllog ar sail niferoedd athrawon pendant. Byddai hyn yn golygu na fyddai angen cynyddu'r ffi gofrestru.

16.4 Roedd barn gyffredinol y byddai costau talu Morgais Busnes yn gyfartal i'r hyn a delir mewn costau rhentu ond byddai hyn ond yn cael ei egluro wrth wneud ymholiadau mwy penodol unwaith bod cyfraddau llog yn hysbys ar adeg y prynu bwriadedig, ac ni fyddai hynny'n digwydd am 3 i 5 mlynedd arall.

16.5 Cytunodd aelodau i'r cynnig i sefydlu cronfa gyfalaf o £350,000 ar gyfer y diben penodedig.

16.6 Aeth Julia Evans ymlaen i adrodd y byddai niferoedd staff y swyddfa yn cynyddu o bump ac wedi hynny o chwe unigolyn, yn sgil cyflwyno staff cyllido Sefydlu a DPC a swyddi eraill fel yr adroddwyd yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor. Roedd y pwysau ychwanegol hyn ar le gweithio wedi arwain swyddogion i holi am y posibilrwydd o gael lle swyddfa ychwanegol ar ail lawr Tŷ Southgate. Roedd trafodaethau ar droed i sefydlu prydles ychwanegol a fyddai'n rhedeg ar y cyd â'r rheiny sydd eisoes yn eu lle gyda'r golwg y byddai'r cyfan yn dod i ben yn 2011. Yn amodol ar ganlyniad llwyddiannus i'r trafodaethau, y gobaith oedd y gellid symud i'r swyddfa newydd o ddechrau mis Medi 2006.

16.7 Yna hysbyswyd aelodau bod y Pwyllgor Gweithredol yn argymell ffïoedd cofrestru dangosol o £36 ar gyfer 2007-08 a 2008-09 yn dilyn y gwaith a wnaed ar y rhaglen Athro Siartredig arfaethedig a chostau rhentu uwch. Soniodd y Cadeirydd ei fod hefyd wedi cyflwyno'r ffigurau hyn gerbron y Gweinidog a'r STRB fel ei gilydd a'r gobaith oedd byddai'r ffïoedd yn cael eu had-dalu yn dilyn yr adolygiad cyflogau presennol. Soniodd un aelod ei fod yn gwrthwynebu cynyddu'r ffi ar y sail nad oedd

unrhyw ffigurau cymharol wedi'u darparu ynghylch cyllidebau'r Cyngor os na fyddai cynnydd yn y ffi yn digwydd.

16.8 Cydnabu aelod arall y baich gwaith ychwanegol diweddar ar swyddogion Safonau Proffesiynol a holodd a fyddai'n berthnasol ystyried ymestyn yr adnoddau i sicrhau bod y gwaith presennol, a oedd o ansawdd uchel iawn, yn parhau a bod unrhyw bwysau diangen ar staff yn cael ei osgoi. Sicrhawyd aelodau gan y Prif Weithredwr bod adnoddau staffio'n cael eu hadolygu'n gyson; bod mesurau yn eu lle i ymdopi ag achosion o bwysau uwch ac y byddai staff ychwanegol yn cael eu penodi pryd a lle bynnag y byddai eu hangen ac y byddai aelodau'n cael gwybod am hyn.

16.9 Gofynnodd y Cadeirydd i aelodau bleidleisio ar y cynnig i osod ffïoedd cofrestru dangosol ar gyfer y ddwy flynedd ar £36. Cytunwyd ar hyn o 17 pleidlais i 2.

17. Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Drafft, 2005-06 (CyngACC 41/06)

17.1 Mae gofyn i'r Cyngor gyflwyno Adroddiad Blynyddol gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, sy'n adrodd ar ei gyflawniadau yn erbyn y targedau a amlinellir yn y Cynllun Gweithredol ar gyfer yr un cyfnod. Mae'r Adroddiad Blynyddol ar gael i'r cyhoedd drwy wefan y Cyngor ac ar ffurf dogfen a gyhoeddir.

17.2 Cyflwynwyd yr adroddiad hwn gan y Prif Weithredwr, a ddywedodd fod y cyfnod rhwng 1af Ebrill 2005 a 31ain Mawrth 2006 yn flwyddyn hynod lwyddiannus a phrysur i'r Cyngor. Diolchodd i'r uwch swyddogion a staff y swyddfa am eu hymdrechion a'u hymrwymiad. Roedd aelodau'n cytuno'n unfrydol â hyn.

17.3 Gwahoddodd y Cadeirydd sylwadau ar yr adroddiad. Roedd sylwadau'n cynnwys yr awgrym y dylid ychwanegu Llywodraethwyr Cymru at restr y cynadleddau a fynychwyd ar dudalen deunaw; awgrymwyd y dylid nodi bod y proffesiwn addysgu a'r cyhoedd fel ei gilydd yn cael eu hysbysu'n llawn drwy'r adroddiad am ystod a dyfnder y gwaith a wneir gan y Cyngor ac y dylid disgrifio'n helaethach y cyfrifoldebau i gynnal gwiriadau addasrwydd.

17.4 Gwahoddodd y Cadeirydd yr aelodau i gytuno ar yr Adroddiad Blynyddol yn amodol ar ychwanegu'r newidiadau a drafodwyd yn flaenorol a chwblhau archwiliad Swyddfa Archwilio Cymru o gyfrifon ariannol y Cyngor. Roedd aelodau'n cytuno gyda'r cynnig hwn.

18. Unrhyw fater arall

18.1 Nid oedd unrhyw fater arall.

NUMBERING – check with Gary

Eitemau er gwybodaeth:

21. Adroddiadau gan gynrychiolwyr y Cyngor ar grwpiau allanol (CyngACC 44/06)

21.1 Cafwyd diweddariad gan y Dirprwy Gadeirydd i'r adroddiad a roddodd i'r Cyngor ar 1af Mehefin 2006 ar Grŵp Llywio Cyffredinol Llwybrau Dysgu 14-19. Cynghorwyd aelodau y byddai grŵp prosiect newydd yn cael ei gynnull i symud y gwaith a wnaed mor belled yn ei flaen. Disgwyliwyd enwebiadau ddechrau'r haf 2006 a dylai'r Cyngor ddisgwyl cysylltiad maes o law. Ymatebodd y Prif Weithredwr drwy ddweud

nad oedd unrhyw wahoddiad wedi'i dderbyn mor belled ac y byddai swyddogion yn mynd ar drywydd y mater.

22. Adolygiad Chwarterol, 1af Ebrill 2006 tan 30ain Mehefin 2006 (CyngACC 45/06)

22.1 Nododd y Dirprwy Gadeirydd fod angen cywiro'r dyddiadau a ddyfynnwyd yn nheitl Atodiad B i adlewyrchu'r cyfnod 1af Ebrill 2006 tan 30ain Mehefin 2006.

22.2 Yna gofynnodd y Dirprwy Gadeirydd i'r swyddogion gynnwys yn Atodiad B ei phresenoldeb gyda'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn y cyfarfod gyda Steve Marshall, Llywodraeth Cynulliad Cymru; Cynhadledd ATL yn Newcastle; Cynhadledd Archwilio Cymru, Caerdydd a Chynhadledd Llywodraethwyr Cymru yn Llandrindod. Ymddiheurodd y Prif Weithredwr fod y manylion hyn wedi'u hepgor a rhoddodd sicrwydd y caent eu cywiro.

22.3 Aeth y Cyngor i sesiwn breifat wedi hyn.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor ddydd Mawrth 17eg Hydref 2006 yn ESIS – Y Ganolfan Ddysgu, Trefforest, Caerdydd